

# Papur Pawb

Pris: 50c

Ebrill 2015 Rhif 408



**Pam fod y Rhufeiniaid hyn ar dudalen flaen Papur Pawb? Mae'r ateb ar dudalen 6**

tud 3  
**Pobl a Phethe**

tud 6  
**Lluniau ar y we**

tud 10  
**Dod i Nabd**

tud 12  
**Teigars**

## Y Frwydr Yn Parhau

*“Mae rhieni plant Ysgol Llangynfelyn yn parhau i frwydro”* – dyna'r neges i awdurdod addysg a chynghorwyr Ceredigion gan Louise Halstrup, ysgrifennydd *Cadwch Ysgol Llangynfelyn ar Agor* (CYLIA).

Adroddwyd yn rhifyn Chwefror o *Bapur Pawb* i'r Cyngor Sir dderbyn adroddiad a oedd yn argymhell cau ysgolion lle 'roedd nifer y plant dan 30. Gan hynny roedd bygythiad i gau Ysgol Llangynfelyn. Bellach penderfynodd y Cyngor ddechrau'r broses o ymgynghori statudol ar 11 Mai. Pe bai'r cynllun ad-drefnu yn cael ei gymeradwyo byddai Ysgol Llangynfelyn yn cau yn Awst 2016. Ond nid yw'r rhieni am ildio heb frwydr.

Fe fu *Papur Pawb* yn trafod y sefyllfa gyda Louise yng Nghaffi Cletwr. Dywedodd Louise: *“I ddechrau, fe ddywedon nhw wrthon ni mai proses dduwyffordd fyddai hon, ond hyd yn hyn rydyn ni heb gael unrhyw atebion i'n cwestiynau na chefnogaeth wrth chwilio am ffordd arall o achub ein hysgol.*

*Rhan hanfodol o'r gymuned yw'r ysgol. Mae'n hybu'r Gymraeg a siaredir yn yr ardal ac yn cadw'r gymuned yn ifanc. Yn anffodus, dywedwyd wrthon ni na allen ni nyladd y cyngor drwy ddefnyddio'r dadleuon hyn, ond bod rhaid i ni ddilyn protocol. Felly dyna a wnaethon ni... a chael nad oedd y cyngor ei hun wedi dilyn protocol.”*



*Louise Halstrup, ysgrifennydd Cadwch Ysgol Llangynfelyn ar Agor*

Mae CYLIA bellach yn trafod yr achos gyda Michael Imperato (cyfreithiwr anghydfodau addysg arbenigol) a bydd yn mynd â'r mater i Adolygiad Barnwrol pe bai Cabinet Ceredigion yn rhoi sêl bendith ddi-gwestiwn i'r cau. Gallai hyn gymryd amser a chostio mwy o lawer nag y gellir ei arbed drwy gadw'r ysgol yn agored.

Aeth Louise ymlaen i ddweud: *“Yn ôl rheolau ESTYN nid yw'n bosibl ad-drefnu addysg er mwyn gwneud arbedion cyllidebol fel y mae'r rhieni'n ddrwgdybio. Dim ond er budd y disgyblion y gellir cyfiawnhau ad-drefnu ysgolion.”*



*Plant Ysgol Llangynfelyn yn protestio*

Yn gyffredinol mae CYLIA o'r farn

- Nad yw'r drefn briodol wedi ei dilyn
- Nid yw dogfennau y ceisiwyd amdanynt wedi dod i law'r grŵp ymgyrchu – gan gynnwys y briff gwreiddiol gan Gyngor Sir Ceredigion i Alun Morgan (awdur yr adroddiad a gychwynnodd y broses hon) a'i gyflwyniad PowerPoint i'r Panel Adolygu Ysgolion
- Mae cwestiynau pellgyrhaeddol wedi cael eu hanwybyddu a hyd yn hyn ni chafwyd unrhyw ymateb er gwaethaf ceisiadau parhaus
- Mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth heb eu hateb o fewn y cyfyngiad 20 diwrnod

Yn ôl Louise, mae gan CYLIA dystiolaeth sy'n dangos mai casgliad anochel o'r cychwyn oedd yr argymhelliad i gau/adolygu darpariaeth ac fe fydd yn ddiddorol gweld sut fydd Mr Imperato yn delio â hyn.

*“Mae'r rhieni yn barod am y frwydr ac yn gwbl unedig yn yr ymgyrch. Does neb wedi symud eu plant o'r ysgol fel sy'n aml yn digwydd lle mae ysgol dan fygyrthiad.”*

Fe fydd *Papur Pawb* yn cadw golwg ar y sefyllfa dros y misoedd nesaf a bydd croeso i'n darllenwyr fynegi eu barn drwy anfon llythyr at y papur.

## Papur Pawb

<b>Golygydd Cyffredinol:</b>	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	(01970) 832560
<b>Tynnu lluniau:</b>	Cysyllter â golygyddion y mis	
<b>Tal-y-bont:</b>	<b>GOHEBYDDION LLEOL</b> Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	<b>832592</b> <b>832438</b>
<b>Maes-y-deri:</b>	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	<b>832483</b>
<b>Parsel Henlllys:</b>	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	<b>832498</b>
<b>Bont-goch:</b>	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	<b>832566</b>
<b>Tre Taliesin:</b>	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	<b>832230</b>
<b>Tre'r-ddôl:</b>	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	<b>832429</b> <b>(01654) 781260</b>
<b>Eglwysfach/Ffwrnais:</b>	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	<b>(01654) 781324</b>
<b>Cadeirydd:</b>	<b>CYMDEITHAS PAPUR PAWB</b> Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	<b>832760</b>
<b>Is-gadeirydd:</b>	Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	<b>832203</b>
<b>Ysgrifennydd:</b>	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	<b>832344</b>
<b>Trysorydd:</b>	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	<b>832093</b>
<b>Tanysgriadau:</b>	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	<b>832448</b>
<b>Hysbysebion:</b>	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	<b>832076</b>
<b>Plygu'r Papur:</b>	Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones	
<b>Dosbarthwyr:</b>	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

## Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Sioe nos Lun 2 Mawrth yn y Neuadd Goffa. Cafwyd adroddiad addawol iawn gan y Swyddogion a diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Edrychir ymlaen nawr at Sioe eleni.

Daeth cyfnod Menna Morgan i ben fel cadeiryddes ac wrth ymadael â'r gadair dymunodd yn dda i'w holynydd, sef Dafydd Jenkins. Diolchodd yntau iddi am lenwi'r gadair mor effeithiol a threfnus dros y cyfnod ac heb fod yn absennol yr un waith.

Ar ôl pedair mlynedd ar bymtheg o wasanaeth mae Dilys Morgan wedi ymddeol fe ysgrifenyddes y Babel. Diolchwyd iddi am ei holl waith dros y blynyddoedd a dymunwyd yn dda iddi at y dyfodol. Bydd Ellyw Jenkins, Tanrallt yn cymryd drosodd fel Ysgrifenyddes y Babel am eleni.

Hefyd mae David Morgan yn dymuno rhoi'r gorau i fod yn Brif Stiward yr anifeiliad ar ôl saith mlynedd ar hugain o wasanaeth. Diolchwyd iddo yntau am ei gyfraniad. Susan Rowlands, Erglodd fydd yn cymryd ei le.

Llywyddion y Sioe eleni yw Mr a Mrs Arvid Parry-Jones, Is-Allt. Etholwyd y Swyddogion a ganlyn am 2015.

Cadeirydd: Dafydd Jenkins, Tanrallt  
Is-gadeirydd: Susan Rowlands, Erglodd  
Trysorydd: Helen Ovens, Crud yr Awel, Taliesin  
Trysorydd Cynorthwyol: Howard Ovens, Frondirion  
Ysgrifenyddes Gyffredinol: Janet Jones, Llwynglas  
Ysgrifenyddes y Babel: Ellyw Jenkins, Tanrallt  
Rheolwr y Maes: Emyr Davies, Llety Ifan Hen  
Cyfarwyddwyr y Sioe: Teulu Bryngwynmawr

Bydd y Sioe yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn 29 Awst ar gaeau'r Llew Du drwy ganiatâd caredig Teulu Richards, Glanleri.

Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni yn ein pwyllgorau sy'n cael eu cynnal ar y nos Lun cyntaf bob mis, yn y Neuadd Goffa am wyth o'r gloch.

## Talwrn y Beirdd

Yn ddiweddar roedd tîm Talwrn y Beirdd Tal-y-bont o fewn trwch blewyn o guro'r *Glêr* – un o dimau cryfa y Talwrn. Darlledwyd y rhaglen ar y radio ym mis Mawrth. Aelodau'r tîm yw Gwenallt Llwyd Ifan, Phil Davies, Anwen Pierce a Phil Thomas. Gwell lwc blwyddyn nesa.

## Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

**Yn eisiau YSGRIFENYDDES Y BABELL**

erbyn mis Medi 2015

Am fwy o fanylion cysyllter â Dafydd Jenkins Rhif ffôn: 01970 832393

## Dyddiadur

### Ebrill

- 10 Clwb Llyfrau** (Water for Elephants gan Sara Gruen): Ystafell haearn
- 11 Cyngerdd gan Sgarmes:** Tabernacl Machynlleth, 7.30
- 12 Bethel** 2.00 Mr Tegwyn Jones  
**Nasareth** 11.15 Bugail (C)  
**Rehoboth** 10.00 Bugail (C)  
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Cymun Bendigaid  
**Eglwys Sant Mihangel** 9.30 Parch David Williams
- 13 Sefydliad y Merched, Eglwysfach:** Gemwaith Botymau 7.30
- 14 Cwrdd Chwiorydd Rehoboth** Te prynhawn gyda Beti Griffiths (Gwesty'r Conrah)  
**Tenis Bwrdd,** Ystafell Haearn 7.00
- 15 Dawnsio Albanaidd,** Ystafell Haearn 7.30
- 16 Sefydliad y Merched** 'Coflyfrdy'r Sir' (Helen Palmer)
- 19 Bethel** 10.00 Gweinidog (Oedfa yn cynnwys cwrdd Eglwys)  
**Nasareth** 5.00 Parch J. Tudno Williams  
**Rehoboth** 5.00 Carwyn Siddal  
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Boreol Weddi  
**Eglwys Sant Mihangel** 9.30 Canon Stuart Bell
- 20 Merched y Wawr** Coginio gyda Mair Nutting
- 26 Bethel** 5.00 Gweinidog  
**Nasareth** 5.00 Parch Judith Morris  
**Rehoboth** 5.00 Bugail  
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Gwasanaeth Teulu

- 28 Tennis Bwrdd,** Ystafell Haearn 7.00
- 29 'Cofio Nant-y-moch' Y** Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru 1.15

### Mai

- 3 Bethel** 10.00 Trefn Lleol  
**Nasareth** 2.00 Bugail  
**Rehoboth** 5.00 Bugail  
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Cymun Bendigaid
- 10 Bethel** 10.00 a 5 30 Y Gymanfa Ganu yng Nghapel y Garn  
**Nasareth** Y Gymanfa Ganu  
**Rehoboth** Y Gymanfa Ganu  
**Eglwys Dewi Sant** 11.00 Boreol Weddi

## Pobl a Phethe

### Brysiwch wella

Derbyniodd Gwen Manley, Swyn y Leri, Tal-y-bont driniaeth yn yr ysbty'n ddiweddar a braf yw deall ei bod yn dechrau gwella – daliwch ati.

### Stori Sydyn

Yn y Gyfnewidfa Lo yng Nghaerdydd ar 16 Mawrth cafwyd lansiad swyddogol Cynllun Stori Sydyn 2015. 'Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf' oedd un o'r cyfrolau Cymraeg ac fe'i hysgrifennwyd gan Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont ar y cyd â Gareth W Jones, Bow Street.

### Cerddor ifanc

Da iawn ti, Fabien Roberts, Llwyngwair, Tal-y-bont ar basio dy arholiad theori cerdd Gradd 1 gyda chlod.



**DEG DROS DDEG:** bydd Morlan yn cynnal 10 digwyddiad dros 10 mis o Ebrill 2015 i nodi dengmlyddiant y ganolfan. Y cyntaf o'r rhain yw'r Penwythnos Dathlu:

- **Ffair Dathlu (2.00-4.00, pnanw Sadwrn, 25 Ebrill).** Dewch i ddarganfod mwy am yr holl weithgarwch sy'n digwydd yn Morlan ar hyd y flwyddyn – bydd yno stondinau amrywiol, perfformiadau, paned a chacen – a'r cyfan am ddim!
- **Gwasanaeth Dathlu (10.00, bore Sul, 26 Ebrill).** Croeso cynnes iawn i bawb.

**DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN (7.30, nos Iau, 7 Mai):** darlith gan Mererid Hopwood ar y thema 'Gwragwn Tan: Gwnawn Dangnefedd'. Mynediad: £6.

**Manylion llawn: [www.morlan.org.uk](http://www.morlan.org.uk)**

Morlan, Maes Mawr, Aberystwyth SY23 2JH  
01970-617996; morlan.aber@gmail.com; @CanoJanMorlan

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Gwyn a Fal gyda Ceri yn dylunio. Golygyddion mis Mai fydd Phil a Megan (gwynionydd@btinternet.com). Sion Pennant fydd yn dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 1 Mai, a bydd y papur ar werth ar 8 Mai.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i James a Kat Clement o Dre'r ddôl ar enedigaeth merch fach, Scarlett Elizabeth Zoe Clement.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Richard a Liz Spencer, Tŷ Manceinion, Taliesin ar ddod yn nain a thaid eto. Ganed merch fach, Hannah, i'w merch Josie a'i phartner Ed, ar 16 Mawrth eleni, chwaer i Hazel ac Oliver. Mae Josie a'i theulu'n byw ger y Fenni.

## Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Aled Lewis a Sarah Dixon o Dôl Felyn, Craig y Penrhyn, Tre'rddôl, ar ei dyweddiad.

## Taith Sefydliad y Merched

Mae seddi ar gael ar gyfer y daith dydd Sul 17 Mai i Biwmaris a Gerddi Plas Cadnant, gadael Eglwysfach 8.30. Bydd y gost yn £25 sydd yn cynnwys mynediad i'r ardd. Am ragor o fanylion cysylltwch â Libby 01654 781451 neu Sheila 01654 781332

## Cronfa Eleri

Cyfarfu pwyllgor Cronfa Eleri yn ddiweddar er mwyn dosbarthu cymorthdaliadau i gymdeithasau a mudiadau lleol. Y gweithgareddau a gefnogwyd eleni yw:

Clwb ar ôl ysgol, Tal-y-bont; Clwb Peldroed Ieuenctid, Tal-y-bont; Neuadd Llanfach, Taliesin; Ysgol Rhydyppennau; Clwb Camera Aberystwyth; Neuadd Penrhyncoch; Sioe Arddwriaethol Llangynfelyn; Parc Chwarae Bont-goch; Treftadaeth Llandre; Cwmni Cletwr; Cylch Meithrin Tal-y-bont.

Mae modd gweld manylion pellach ar wefan y Gronfa: [cronfaeleri.cymru](http://cronfaeleri.cymru)

## Penblwyddi! Penblwyddi!

Wel am ddathliadau fu'n cymeryd lle yn Nhal-y-bont yn ystod y mis gyda chymaint yn cael penblwyddi arbennig! Llongyfarchiadau i bob un o'r canlynol a fu'n dathlu – Bob Southgate, Maesyderi; Richie Evans, Fferm Glanyrafon; Sion Hopkins, Dyffryn; Garmon Nutting, Ty Hen Henllys ac Arwyn Evans, Cefngweiriog. Ond cofiwch nad oeddent yn dathlu'r un rhif penblwyddi!!

# Pobl a Phethe



## Ysgol Sul Bethel

Ar 5 Ebrill cynhaliodd 17 o blant ac ieuenctid yr Ysgol Sul wasanaeth arbennig i ddathlu sul y pasg. Thema'r gwasanaeth oedd 'Iesu'r Ceidwad'. A rhag rhoi gormod o bwysau ar eu hysgwyddau, fe'u cynorthwywyd gan athrawon yr Ysgol Sul a'r rhieni!

Roedd safon ac ymroddiad y plant yn ganmoladwy a chafwyd gwasanaeth gwerth chweil.

Diolch i Moli, sy'n byw yng Nghaerdydd, am gymryd rhan yn y gwasanaeth gyda ni.

Ar ddiwedd yr oedfa mwynhawyd cwpaned o de a chacen.



Daeth aelodau'r grŵp sy'n gyfrifol am brosiect newydd o'r enw *Cymerau* i arddangos eu gwaith yn Neuadd Goffa Tal-y-bont yn ddiweddar.

Ymhlith y trigolion lleol a ddaeth yno ac a welir yn y llun oedd Eirlys, Ffion a Hedydd. Mae Cymerau yn brosiect sy'n ymwneud â 'Hydrocitizenship' a'r pwysigrwydd o ddŵr yn ein cymunedau. Gellir gweld mwy am y prosiect ar y wefan: <http://www.cymerau.org/> ac fe fydd *Papur Pawb* yn cynnwys adroddiadau am weithgareddau'r prosiect wrth iddo ddatblygu.

## Telynores Neuadd Fawr

Cafodd Medi Evans, Neuadd Fawr, Tal-y-bont brofiad arbennig yn Galeri Caernarfon yn ystod y gwyliau gan iddi gael y cyfle i gael dosbarth meistr gan y delynores

Elinor Bennett. Yn dilyn y dosbarth bu Medi'n perfformio ar y cyd â thelynorion ifanc eraill a ddaeth o sawl gwlad i Gaernarfon i fod yn rhan o Wyl Telynau Cymru.

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Sheila Talbot, Ty Clyd, Tal-y-bont a gollodd ei mam ar 1 Mawrth ym Mhorthcawl.

Bu farw mam Catrin M S Davies, Simne Wen, Tal-y-bont. Roedd hi'n byw yn Nhrefenter. Cydymdeimlwn â Catrin, Alun ac Elan gan gofio mai dyma'r ail brofedigaeth agos iddynt ei brofi mewn cyfnod o ychydig fisoedd.

Collodd Myfanwy, Sian a Lynwen James, Bryn Eglur, Tal-y-bont fodryb a oedd wedi preswyllo yng nghartref Plas Cwmcynfelyn, Clarach ers peth amser. Yr un yw ein cydymdeimlad â chi.

## 'Oriol y Cwtch', Siop Cynfelyn

Yn ystod mis Ebrill, bydd gwaith artist lleol Flic Eden yn cael ei arddangos yn y Cwtch. Mae mynediad am ddim.

## Eglwys St. Pedr, Elerch

Dathlwyd Cymun Bendigaid Sul y Pasg dan arweiniad Yr Hybarch Hywel Jones, Llanbadarn Fawr.

## Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Alan Magor, 53, Wesley Terrace, Taliesin a'i gariad Carol ar eu priodas yn Aberystwyth ar 28 Mawrth. Cynhaliwyd y wledd yn Mrynrodyn, Y Borth. Dymunwn bob hapusrwydd i chi'ch dau.

## Castell Glandyfi

Mae swyddi achlysurol gyda'r nos a phen-wythnosau ar gael i bobl ifanc gofalus, cynigir tâl ac amodau gwaith da, a chlundant gatre yn dilyn shifft. Os oes diddordeb gennych cysylltwch 01654781238.

## Cwis yn yr Ystafell Haearn

Cynhelir cwis yn yr Ystafell haearn, Eglwysfach, nos Sadwrn 18 Ebrill 7.30. £5 am dîm o bedwar. Archebwch eich bwrdd drwy gysylltu efo Roy 781343 neu Chris 703730.

## Rhestr fer gwobrau

### Tir na nog 2015

Y mae pedwar o'r chwe llyfr sydd wedi eu dewis ar restr fer gwobrau Tir Na Nog eleni wedi eu cyhoeddi gan wasg Y Lofa – tipyn o gamp. Y mae awdur un o'r llyfrau, Mihangel Morgan yn byw yn Nhal-y-bont. Cafodd ei lyfr 'Y Planhigyn' ei enwebu yn y Categori Uwchradd Cymraeg.



## Cylch Meithrin Tal-y-Bont

### Cronfa Eleri

Yn dilyn cais llwyddiannus i Gronfa Eleri eleni, mae'r Cylch Meithrin wedi bod yn ffodus iawn i dderbyn nawdd i greu ardal arbennig sy'n canolbwyntio ar y byd dychmygol a chwarae rôl. Dymuniad y Cylch fel rhan o'r prosiect newydd yma oedd medru prynu adnoddau eang a chyffrous. Mae cael cyfle i ddefnyddio'u dychymyg yn rhan elfennol bwysig o ddatblygiad pob plentyn bach ac yn y Cylch Meithrin, yng nghwmni eu cyfoedion a thrwy nawdd Cronfa Eleri, mae hyn wedi bod yn bosib. Mae'r plant bach wrth eu bodd gyda'r offer a'r gwisgoedd newydd! Mae cynnig amrywiaeth o adnoddau safonol yn bwysig i hybu ac ymestyn dychymyg a datblygiad y plant. Mae'r plant iau yn mwynhau chwarae gydag offer cartref megis llestri a doliau gan eu bod yn medru cysylltu eu chwarae gyda'u profiadau dyddiol. Wrth i'r plant ddatblygu mae eu dychymyg yn aeddfedu a'u chwarae yn eu trosglwyddo hwy i ba bynnag le y maent yn dymuno. Er enghraifft, dreigiau a chestyll, byd y tylwyth teg, caffï neu siop. Drwy gynnig adnoddau pen agored mae hyn yn rhoi rhyddid i'r plant i arwain eu chwarae. Mae'r sgiliau sy'n cael eu hybu yn yr ardal dychmygol yn cynnwys sgiliau personol a chymdeithasol, sgiliau iaith a lleferydd ynghyd â dealltwriaeth o'r byd allanol. Gan fod y plant yn dewis eu hadnoddau a'u sefyllfa dychmygol, mae'u sgiliau canolbwyntio'n ymestyn hefyd. Mae adeiliad ac adnoddau'r Cylch Meithrin yn cael eu ddefnyddio gan y Cylch Ti a Fi, Clwb Ar Ôl Ysgol a grwpiau ymyrraeth yr ysgol. Yn hyn o beth, bydd yr ardal dychmygol newydd yma nid yn unig yn fuddiol i'r plant bach ond gyda phob un o'r sefydliadau yma mewn gwahanol ffyrdd. Yn ogystal â'r cymorth ariannol yma, mae'r nawdd wnaeth Tom Cosson ei godi drwy redeg y ras 10k yn Aberystwyth cyn y Nadolig wedi bod yn fuddiol iawn i brynu deunyddiau newydd i'r Cylch Meithrin hefyd. Diolch am eich cefnogaeth!

### Helfa Basg

Ar fore Mercher 25 o Fawrth, bu'r plant yn brysur yn datblygu eu sgiliau chwilota drwy ymgymryd â'r Helfa Basg a baratwyd gan Staff y Cylch. Amcan yr helfa oedd darganfod deg lleoliad yn ôl y cliwiau gweledol o amgylch y Cylch a'r Ysgol er mwyn derbyn gwobrau. Bu'r plant yn tywys eu rhieni ar wib i nifer o fannau gwahanol ac roedd eu dwylo bach yn orlawn o wobrau wedi'r bore cyffrous!

### Cartŵn y Mis



"Ond wrth gwrs, 'dyw'r peiriant ddim yn gweithio ar wleidyddion!"

# Ysgol Llangynfelyn



Pythefnos Masnach Deg



Diwrnod Trwyn Coch



Ymweliad i Fferm Tanllan



Ymweliad i Ganolfan y Dechnoleg Amgen



Diffyg yr haul



Ymweliad i Waith Egni Dŵr Dyffryn Rheidol

# Ysgol Llangynfelyn

## Pythefnos Masnach Deg

Fel rhan o'r gwaith i ddsygu am Fasnach Deg, cafwyd Gwledd Masnach Deg yn yr ysgol. Daeth y plant ag eitem o fwyd Masnach Deg i'r ysgol i rannu. Cafwyd amryw o fwydydd gwahanol gan gynnwys siocled, bananas, mango sych a bisgedi. Dysgodd y plant am fywyd ffermwr coco yn y Dominican Republic ac am daith banana Masnach Deg o'r goeden i'r archfarchnad. Cafwyd cacen pen-blwydd i Lola'r mochyn cwta ar yr un pryd gan ei bod hi'n dair oed.

## Ymweliad i Fferm Tanllan

Aeth Dosbarth y Cyfnod Sylfaen i Fferm Tanllan fel rhan o'i thema Sŵ Bach. Cafwyd croeso cynnes iawn yno gan Anti Shân, David a Gwion. Bu'r plant yn bwyo'r wyn a'r defaid yn y sied ddefaid ac aethon nhw i weld y buwchod, y geifr, yr ieir a'r gwyddau. Cafwyd cyfle i eistedd ar y beic cwad a'r tractor cyn cael cacen a diod yn y tŷ. Diolchwn yn fawr iawn i deulu Tanllan am eu croeso. Roedd y plant wrth eu bodd yno!

## Diwrnod Trwyn Coch

Daeth y plant i'r ysgol mewn gwisg ffansi a'u hwynebau wedi'u pantio'n wirion i godi arian tuag at elusen Comic Relief. Cyfrannodd y plant tuag at gacennau a diod a chafwyd cystadleuaeth i weld pwy oedd gyda'r wyneb mwyaf gwirion.

## Ymweliad i Waith Egni Dŵr Dyffryn Rheidol

Aeth Dosbarth Cyfnod Allweddol 2 i Ddyffryn Rheidol am y diwrnod i gymryd rhan mewn diwrnod o weithgareddau Gwyddoniaeth a Rhifedd. Cafwyd taith dywys o amgylch y safle a gweithdai gyda Mr Geoff Davies o Techniquet yn y bore. Yn y prynhawn aethpwyd ar Daith Rhifedd tu allan. Diolchwn yn fawr iawn i Statkraft, TLC Consultancy a Techniquet am y diwrnod gwych rhad ac am ddim hwn.

## Ymweliad i Ganolfan y Dechnoleg Amgen

Aeth holl ddisgyblion yr ysgol i CAT i ddsygu am egni gwynt. Bydd y gwaith yma'n rhan o'r prosiect Connecting Classroom gyda Ghana a Malawi. Cafodd y plant hŷn daith dywys o gwmpas CAT a gweithdy ynni gwynt. Cafont gyfle i gynllunio ac adeiladu tyrbinau gwynt bach eu hunain a buont yn gweld pa un greodd y mwyaf o drydan. Tyrbina gwynt Ben a Finn oedd yr enillydd. Aeth y plant bach o gwmpas y safle a chael picnic hyfryd yn yr haul.

## Diffyg yr haul

Ar fore heulog, diolch byth, a chli'r aeth y plant allan ar yr iard i wyllo diffyg yr haul. Roedd gennym ddeg pâr o sbectol arbennig i'w wyllo, colandrau a chamerau twll pin. Nid oedd y plant wedi gweld unrhyw beth fel hyn o'r blaen. Diddorol iawn oedd gweld yr haul yn mynd yn llai ac yn llai. Cafwyd cyfle i wneud gwaith Gwyddoniaeth a Chelf ddiddorol iawn nôl yn y dosbarthiadau.

## Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

### Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur
- .... a rhagor

Noddyd y wefan hon gan:  
Anthony Motors  
Volkswagen



**papurpawb.cymru**

## Merched y Wawr

Nos Iau, Mawrth teithiodd aelodau'r gangen draw i Benrhyn-coch ar wahoddiad y gangen leol o Ferched y Wawr i ddathlu Dydd Gwyl Dewi gyda hwy. Cawsom adloniant ardderchog i ddechrau'r noson gan Adran yr Urdd Tref Aberystwyth cyn mwynhau bwffe hynod o flasus.

Nos Lun, 16 Mawrth, braf oedd cael croesawu Shân Jones atom, merch leol sy'n byw ym Montgoch.

Podiatrydd yn trin traed yw gwaith Shân ac mae wedi

gweithio i'r Bwrdd Iechyd yng

Nghaerfyrddin ac ym Mronglais am flynyddoedd. Mae wedi graddio hefyd mewn rheolaeth Clefyd Siwgr, 'Diabetes' ond bellach mae ganddi glinig ei hun y tu ôl i'r siop esgidiau Gwdihw, sydd ganddi yn Aberystwyth. Cawsom sgwrs ar sut i ofalu am ein traed a dangosodd sleidiau i ni o'r clwyfau sydd yn medru effeithio'r traed o ganlyniad i Glefyd y Siwgr. Pwysleisiodd pa mor bwysig yw atal y clefyd yma ac i wisgo esgidiau sydd yn ffitio'n iawn. Diolchwyd iddi gan Aileen Williams.

*Beti Jenkins*



*Shân Jones*

## Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mawrth.

### Tyllau yn y Ffordd

Adroddodd y Clerc iddi gysylltu gyda'r Cyngor Sir er mwyn cael diweddariad ar y sawl achos agored o dyllau dros ffordd amrywiol Ceulanamaesmawr. Nid oedd diweddariad ar waith ffordd Cwm Ceulan nac ychwaith ar y groesffordd ger Llety Ifan Hen, Bont-goch. Cytunwyd i'r Clerc barhau i ddilyn y mater.

### Cyngor Sir Ceredigion - Ymgynghoriad ar ddyfodol darpariaeth Cartrefi Preswyl Cyngor Sir Ceredigion

Derbyniwyd hysbys bod cyfnod ymgynghori ar ddyfodol darpariaeth Cartrefi Preswyl y sir wedi'i ymestyn hyd nes 30 Ebrill 2015. Bydd sesiynau 'galw heibio' yn cael eu cynnal ar draws y sir, gan gynnwys un yn Neuadd Goffa Penparcau, 14 Ebrill rhwng 3.30pm - 6.30pm. Mae croeso i unrhyw un fynychu'r sesiynau.

### Cyngor Sir Ceredigion – Digwyddiad 'Dweud eich Dweud'

Derbyniwyd hysbys bod digwyddiad 'Dweud eich Dweud' yn cael ei redeg ar y cyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed Powys, a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol er mwyn i'r cyhoedd medru trafod unrhyw faterion diogelwch cymunedol gyda hwy. Cynhelir y digwyddiad yn Siambr Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, 27 Ebrill, rhwng 7 a 9yh.

### Cynllun Asesu a Rheoli Risg

Cyflwynodd y Clerc Cynllun Asesu a Rheoli Risg Ariannol y Cyngor ar gyfer 2015/16.

Mabwysiadwyd y Cynllun Rheoli Risg gan y Cyngor.

### Rhestr Asedau'r Cyngor

Cyflwynodd y Clerc rhestr asedau'r Cyngor. Cadarnhawyd y rhestr o asedau'r Cyngor yn 2014/15.



# Lluniau'r papur ar y we – www.casgliad



*Dai MacDonald, Talieisin, a'i dhysau dartiau, 1985*



*Y Chub Ffermyr Ifanc, 1987*

Mae modd gweld dros 230 o hen lluniau Papur Pawb ar y we erbyn hyn. Cewch eu gweld ar wefan Casgliad y Werin: [www.casgliadywerin.cymru](http://www.casgliadywerin.cymru)

Rhowch "Papur Pawb" yn y blwch chwilio ac fe ddowch o hyd i'r holl lluniau. Ond petaech yn chwilio am un person, lle, neu ddigwyddiad penodol, rhowch yr enw hwnnw yn y blwch ac fe ddaw'r ateb yn sydyn.

Ar y wefan mae miloedd o lluniau o bob ran o Gymru sy'n adlewyrchu natur ein cenedl – lluniau y mae modd eu gweld dros y byd i gyd. Erbyn hyn felly ceir ychydig o hanes ardal *Papur Pawb* yn ystod chwarter olaf yr ugeinfed ganrif - a hynny drwy ffotograffau.

Mae nhw'n dangos yr amrywiaeth o weithgareddau a oedd yn ffynnu yn yr ardal hon o Geredigion. Mae yma sioeau, carnifals, timau chwaraeon o bob math, cymdeithasau, gweithgareddau'r ysgolion a phortreadau o unigolion diddorol.

Nid oedd carnifal yn y dalgylch heb ymddangosiad yr hen gymeriad hoffus hwnnw John Ellis ac mae ef i'w weld mewn sawl llun. Yma hefyd mae enillyr cyson yn y sioeau lleol fel Mary Ellis, Alun Isaac a Gwyn Bond. Mae nifer o lluniau o bencampwyr dartiau fel Dai MacDonald a cheir portreadau gwych o



*Mwynbau'r eina: Ceri Jones, Kelly a Debbie Green, Ionawr 1986*

## GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI  
GWASANAETH GOLCHI  
DWFES MAWR  
CITS CHWARAEON

JEAN JAMES  
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,  
Aberystwyth SY23 3SL



## loga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,  
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.

Pris £5.00

Cysylltwch a

**Sue Jones-Davies**

**01970 624658**

## Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personol

Martin Davis  
Is-y-coed, Tre Talieisin, MACHYNLETH  
Powys SY20 8JG Cymru

Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 [afiaith@aol.com](mailto:afiaith@aol.com)

STORFA CANOLBARTH CYMRU

**MID WALES STORAGE**

Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion  
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi



[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)

Bocses a bubblewrap ar lein  
[www.boxshopsupplies.co.uk](http://www.boxshopsupplies.co.uk)

Ffôn: 01654 703592

[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)

INVESTORS | BUDDODDWR  
IN PEOPLE | NEWN POBL

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

argraffu da  
am bris da

**Y Lolfa**



holwch Paul am bris ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)  
01970 832 304 [www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)

# iadywerin.cymru



*Ail-fyw'r 'Good Old Days' ar stryd fawr Taliesin, 1983*

hen gymeriadau fel Lewis Morgan, D W Evans, ac Aelwyn Thomas.

Mae rhain wedi'n gadael erbyn hyn ond mae lluniau eraill yn dangos rhai o'r ardal pan oedden nhw'n ifanc, fel tîm karate Tal-y-bont o 1986, y Clwb Ffermwyr Ifanc o 1987 a buddugwyr eisteddfodau'r ysgolion.

Er y boom yn ymdrechu i gasglu gwybodaeth am y lluniau, yn arbennig enwau'r bobl sy'n ymddangos ynddi nhw, mae 'na ambell i farc cwestiwn o hyd. Mae modd i chi ein helpu drwy anfon neges i'r wefan (yn y blwch 'gadael sylw') i gynnig enwau ambell un coll neu sylw arall. Gwnewch hynny ar bob cyfiri. Gallwn wedyn gyfoethogi'r wybodaeth sydd ar gael eisoes.

Gobeithiwn ychwanegu mwy o luniau yn y man (gweler hefyd Apêl 1 ac Apêl 2). Yn y cyfamser dyma rai o'r lluniau sydd i'w gweld eisoes ar wefan Casgliad y Werin. Ewch ati i'w gweld.

G.J.

**APÊL 1** – Yn nyddiau cynnar *Papur Pawb* byddai printiau rhai o'r ffotograffau yn cael eu cyflwyno i'r sawl oedd yn y llun. Mae'n siwr fod rhai ohonynt wedi goroesi mewn albymau teuluol a byddem yn ddiolchgar iawn petai modd i ni fedru eu sganio a'u cadw yn archif y papur. Byddwch yn cael cadw'r llun gwreddiol wrth gwrs. Os oes gyda chi luniau fel hyn a wnewch chi gysylltu â'r golygydd cyffredinol am fwy o fanylion?

**APÊL 2** – Ers tua'r flwyddyn 2000 mae *Papur Pawb* yn cael ei baratoi'n ddigidol ac mae'r ffotograffau hefyd wedi'u tynnu gan gamerau digidol. Bydd y rhai mwyaf hirben ohono chi wedi cadw'r ffotograffau ar eich cyfrifiadur a byddwn yn ddiolchgar iawn petaech yn anfon copiau ohonyn nhw i'w cynnwys yn archif y papur. Cysylltwch â'r golygydd cyffredinol am fwy o fanylion.



*Tîm karate Tal-y-bont, 1986*

*Rhian*

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612  
07835 525 553

**K Hughes**

**Plymio a Gwresogi**

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi  
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129  
07761 917235

## Elin Jones AC – O'r Cynulliad

I sir fel Ceredigion, mae trafndiaeth gyhoeddus yn hollbwysig – ar gyfer galluogi pobl i gyrraedd gwaith ac apwyntiadau, ar gyfer twristiaeth a hamdden, ac er mwyn yr amgylchedd.

Bu rhai gwelliannau wrth gwrs. Yn sgîl ymadawiad cwmni bysiau Arriva, llwyddwyd i gael gwasanaethau gwell rhwng Aberaeron, Llambod a Chaerfyrddin, a rhwng Aberteifi a Hwlfordd. Roeddwn yn falch iawn hefyd o ymuno â'r Gweinidog Trafndiaeth yn ddiweddar yng ngorsaf drenau Aberystwyth i gael manylion am y gwasanaeth amlach fydd mor bwysig i'r dre â'r Brifysgol.

Ond mae nifer o frwydrau i'w hmylladd o hyd. Rwy'n gwybod fod pobl yn ne Ceredigion yn dioddef anghyfleustra tost oherwydd y diffyg gwasanaethau bws ar ddydd Sul. Mae'n sefyllfa hollol annerbiniol fod dim posib teithio rhwng Aberaeron ac Aberteifi ar y Sul. Rwyf wedi codi'r materion hyn gyda'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, a byddaf yn parhau i bwysio am welliannau. Da yw gweld fod pwysau yn gallu talu ffordd, wrth i wasanaeth y Cardi Bach gael ei adfer. Diolch yn fawr i grwp ymgyrch diwyd lleol a fu o gymorth mawr i ddwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru i roi cymorth ariannol i wasanaeth sydd mor bwysig i'r diwydiant ymwelwyr a chymunedau arfordirol ardal Cei Newydd, Cwmtydu ac Aberporth.

Yn ogystal â thrafnidiaeth gyhoeddus, rhaid hefyd rhoi anogaeth i bobl i gerdded lle bo hynny'n bosib. Bum yn cydweithio gyda rhieni a chynghorwyr lleol ar ymgyrchoedd i wella diogelwch plant sy'n cerdded i'r ysgol mewn sawl ardal. Mae'n dda gweld llwyddiant ar y gorwel yn Llanarth, Talybont a Chapel Bangor, a mwynheais siarad gyda phlant Ysgol Llanarth yn ddiweddar am sut y byddent yn elwa o groesfan mwy diogel ar yr A487.

Parhau mae ymgyrchoedd tebyg ym Mhenparcau a llefydd eraill, ac felly hefyd yr ymgyrch i gwblhau'r llwybr troed a beicio rhwng Bow Street a Thal-y-bont. Roedd pawb yn disgwyl y byddai'r gwaith yma wedi hen gychwyn erbyn hyn, a byddaf yn parhau i gydweithio gyda phobl yn ardal Dole i sicrhau llwybrau mwy diogel ar hyd ein priffyrdd.



Bistro  
*Gannets*

Bywd a Gwin Da  
7 St James Square, Aberystwyth  
617164  
Ar agor Llun i Sadwrn  
12-2 a 6-9.30

**Y Fframdy**

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dyfchmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA  
Ffôn: 01970 871042  
Symudol: 07773 846659

**Garej Davmor**



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

**Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont**

**01970 832278 www.davmorgarage.co.uk**





# Eisteddfod yr Ysgol



Prif enillwyr yr Eisteddfod



Enillydd y gadair, Glain Llwyd Davies



Enillwyr y Cyfnod Sylfaen



Ymarfer Hoci



Ffair Wyddoniaeth

**S4C**

**Côr Cymru 2015  
Y Rownd Derfynol**

**7.00**

**19 Ebrill**

Pwy fydd côr buddugol y gystadleuaeth gorawl eleni?

s4c.cymru

S4C Clic  



## Dod i nabod....

### Robert Davies

Daeth Robert Davies i fyw i'r ardal hon gyda'i wraig Amy yn 2013 gan adeiladu tŷ eco trawiadol o'r enw Cae Bach yn Nhaliesin gyda golygfa hyfryd ar draws Cors Fochno. Er ei fod yn dod yn wreiddiol o Birmingham, roedd ei dad-cu yn Gymro a daw ei wraig o Lanfair Caereinion. Mae Robert yn dysgu Cymraeg yn ara deg.

Mae wedi ennill ei fywoliaeth yn y byd celf fel ffotograffydd ac arlunydd dyfeisgar. Mae wedi tynnu lluniau mawr gwych o anifeiliaid fel yr un (sydd wedi hanner ei orffen) yn y llun uchod o ddfad mynydd, eiddo Enoc Tyn'graig. Gwaith llafurus yw'r gwaith hwn ac mae ôl amynedd di-ben-draw ar ei holl waith.

Mae hefyd wedi defnyddio lluniau hanesyddol o gystadlaethau Cwpan y Byd i greu delweddau trawiadol. Mae'r rhain wedi bod yn boblogaidd iawn ymhlith prynwyr celf yn Llundain ac ar draws y byd. Mae modd gweld y lluniau hyn mewn llyfr hardd a gyhoeddodd yn 2006 ar y cyd gyda'r newyddiadurwr chwaraeon blaenllaw Richard Williams.

Yn ddiweddar mae Robert wedi cwblhau prosiect rhyfeddol, sef ffilm o'r daith trên rhwng Birmingham ac Aberystwyth. Roedd y camera wedi'i osod yng nghanan y gyrrwr. Nid oedd Robert yn cael bod yn y caban ac felly roedd yn gosod y camera ar ddechrau'r daith ac yn eistedd gyda'r teithwyr. Cymerodd y ffilm 18 mis i'w gwblhau gyda Robert yn teithio 86 gwaith ar y trên. Mae'r canlyniad yn rhyfeddol, sef ffilm o bron i ddwy awr o hyd yn dangos y newidiadau yn y dirwedd a hynny dros gyfnod y tymhorau. Mae 'na eira yn Smethwick, haul hyfryd yn ardal Amwythig, llwydrew ger Glantwymyn a llifogydd a machlud haul hardd wrth gyrraedd Borth.

Mae modd gweld y ffilm yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth tan 11 Ebrill a hefyd ym Machynlleth a Borth yn ystod misoedd yr haf. Am fwy o fanylion ewch i wefan <http://oftimeandtherailway.com> sydd hefyd yn cynnwys clipiau o'r ffilm.

GJ

BWYD DA...  
CWMNI DA...

yBlac  
TALYBONT

#### BWYTY A BAR

Cinio 12.00-2.30 Swper Nos 6.00-9.00 Cinio Sul 12.00-3.00

Partion | Digwyddiadau | Llogi ystafell | Pen-blwydd  
Dathlu | Priodasau | Parti Bedydd | Te angladd

Swydd blaen tŷ ar gael cysylltwch â ni!

Gwelwn chi'n fuan... Cofion Siân, Catrin a'r tîm

01970 832 555 [croeso@yblac.co.uk](mailto:croeso@yblac.co.uk)



### Cyri Plaid Cymru

Cynhaliwyd cinio cyri yn Neuadd Goffa Tal-y-bont ar ddydd Sadwrn 21 Mawrth er mwyn codi arian ar gyfer ymgyrch Mike Parker, ymgeisydd Plaid Cymru yn yr etholiad cyffredinol. Yn y llun gwelir Mike Parker yn derbyn plated blasus o gyri gan Helena O'Sullivan a Medi James.

## Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

### Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00  
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245  
[garethwhitelion@outlook.com](mailto:garethwhitelion@outlook.com)



I ddatlu'r **Stwsh** newydd sbon, rydym yn cynnig y cyfle i chi **ENNILL** pecyn anferth o wobrau bob wythnos am 4 wythnos! Dyna'i gyd sydd rhaid i chi wneud ydy...

**GWYLIA**  
rhaglen yr wythnos  
**MYND ARLEIN**  
i wefan [s4c.cymru/stwsh](http://s4c.cymru/stwsh)  
**ATEB**  
cwestiwn syml am y  
rhaglen nes di wyllo

**Wythnos 1:**  
Ludus ar 20 Ebrill, 5.00  
**Wythnos 2:**  
Fi yw'r Bos ar 28 Ebrill, 5.00  
**Wythnos 3:**  
Dreigiau Berc ar 2 Mai, 8.55  
**Wythnos 4:** Tag ar 12 Mai, 5.30

Bydd yr enillydd yn cael ei ddatgelu ar  
**Tag bob dydd Gwener am 5.00!**

Mae holl delerau'r gystadleueth i'w gweld ar [s4c.cymru/stwsh](http://s4c.cymru/stwsh). Cynhelir y gystadlaethau rhwng 20 Ebrill tan 14 Mai 2015. Mae'r gystadlaethau yn agored i blant 7-16 oed yn unig. Rhaid cael caniatâd rhieni neu warcheidwad.



*Yr Hittites gyda David Moore yn dal y meic*

## HIT MAWR

Croesawyd chwech o gerddorion hynod o ddawnus, sef y grŵp gwerin Yr Hittites, i'r Llew Gwyn, Nos Wener, 27 Mawrth. Trefnwyd y noson gan Arthur Dafis ar ran Clwb Nos Wener y pentre.

Roedd aelodau'r grŵp yn offerynnwyr penigamp wrth iddynt berfformio ar y ffidil, gitarau, organ geg, accordion bach a'r bocs rhythm. Mae un ohonynt, David Moore ('Dafydd Eto') yn byw yn Nhŷ Gwyn, Tal-y-bont.

Cafwyd trefniannau gwreiddiol a bywiog o alawon a chaneuon gwerin Cymraeg yn lleisiol ac offerynnol.

Cymaint oedd y gymeradwydaeth ar ddiwedd y noson fel y bu raid iddynt roi perfformiad ychwanegol gan roi cyfle i'r gynulleidfa ymuno â hwy!

## Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

Ar nos ola' mis Mawrth, daeth Einion Gruffudd o'r Llyfrgell Genedlaethol i Lanfach, Taliesin i ddweud wrth aelodau'r Gymdeithas am y cynllun cyffrous sydd gan y Llyfrgell i ddigido Mapiu'r Degwm. Creuwyd y mapiau tua ganol y 19eg ganrif gan Eglwys Lloegr, pan newidwyd yr arfer o dalu'r degwm mewn cynnyrch i dalu swm cyfatebol o arian. Dangosir y mapiau pob adeilad a darn o dir oedd i drethu, i lawr at gaeau unigol, ac mae'r cofrestrï sydd yn cydfynd â nhw yn cofnodi y perchennogion a'r tenantiaid yn y 1840au. Maent, felly, yn adnodd hynod bwysig i haneswyr Cymru ac mae'r Llyfrgell yn ffodus i berchen casgliad o fapiau Cymru sydd bron yn gyflawn.

Ond ... mae'r mapiau erbyn hyn dros cant a hanner oed ac yn frau, ac nid oes mynegai i'r unigolion a'r ffermydd a enwyd yn y cofrestrï.

Mae'r Llyfrgell, felly, wedi sicrhau arian i drosglwyddo'r wybodaeth ar y mapiau i ffurf digidol y gellir eu defnyddio unrwyble yn y byd. Ond mae angen gwirfoddolwyr i ymgymryd â'r gwaith. Gellwch fynd i mewn i wefan arbennig y Llyfrgell ac, mewn modd hawdd i'w ddysgu, cymhwyso'r mapiau a chofnodi'r cofrestrï. Dyma gyfle i bawb sydd â diddordeb mewn hanes eu gwlad wneud rhywbeth ymarferol i ddiogelu a lledaenu cynnwys y dogfennau pwysig hyn.

## Y Gair Olaf



Dechreuais feddwl beth fyddwn i'n ei ysgrifennu ar gyfer y golofn hon o gwmpas yr adeg pryd y dathlwyd dydd Sant Padrig. (Nodwch i mi ddweud 'o gwmpas yr adeg' ac nid y dydd ei hunan gan fod y Gwyddelod yn treulio tuag wythnos yn dathlu ein diwrnod cenedlaethol)... a do, cefais f'atgoffa ar fwy nag un achlysur mai dydd Cymro rydyn ni'n ei ddathlu!

Roeddwn i'n darllen araith dydd St Padrig yr Arlywydd Higgins, ac fe darodd darn o'i araith dant: "...i'r rhai hynny sydd wedi estyn cymorth a chroeso i Wyddelod ar draws y byd, rwy'n dweud diolch..." Pan ddeuthum i Gymru gyntaf am 6 mis, derbyniais - fel dwedwn ni'r Gwyddelod - "*Céad míle fáilte*", can mil croeso gan y trigolion lleol. Union 20 mlynedd yn ddiweddarach, rwy'n dal yma!

A'r rheswm rwy'n dal yma yw fy mod yn teimlo bod yma synnwyr o gymuned. Mae'n bwysig i bobl sy'n symud i'r ardal hon gael teimlo'r un synnwyr yma, fel bod modd iddynt sylweddoli bod yma ddiwylliant byw a byrlymus, ac yn ganolig i'r diwylliant hwn, iaith Gymraeg. Mae hi'n bwysig iddynt sylweddoli bod yr iaith hon yn rhan annatod o fywyd bob dydd, a sylweddoli y dylent fod yn rhan o'r gymuned hon maent wedi dewis dod i fyw ynddi.

Man cychwyn pwysig yw sylweddoli bod enwau Cymraeg ar dai yr ardal am reswm, ac na ddylai'r enwau yma gael eu newid i rai Seisnig. Mae dyletswydd arnynt i dalu'r ddyled yn ôl am y can mil croeso yna - bod yna ddyletswydd arnynt i barchu diwylliant y gymuned maent yn dod yn rhan ohoni. Ac wedi'r cyfan, fel dwed yr hen ddywediad: "pan yn Rhufain, gwnewch fel y Rhufeiniaid."

*Helena O Sullivan*

	<p><b>Teiars</b>  <b>Aliniad Olwyn</b>  <b>Ecsôsts</b>  <b>Batris</b>  <b>Brêcs</b>  <b>Hongiad</b>  <b>Bar tynnu</b>  <b>Gwasanaeth</b>  <b>MOT</b></p>	
<p><b>Glanyrafon</b></p>	<p><b>HUWLEWISTYRES.COM</b></p>	<p><b>Rhodfa'r Parc</b></p>
<p>Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.          Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan  <b>ALIGNMYCAR.CO.UK</b>          Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.  <b>ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000</b>  <b>LLANBED 01570 422211</b></p>		


## Garej Paul Joseph

01970 822220

**Pob Math o Geir**  
**Gwasanaeth a Thrwsio**  
**Diagnosteg a Weldio**  
**Paratoi a Thrwsio MOT**



**Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre**



Am  
**GOFEBAU ARBENNIG**  
**BEDDARGRAFFIADAU**  
**ADNEWYDDU O SAFON**  
**ARWYDDION AR DAI A**  
**BUSNESAU**

*Gofynnwch am bamffled  
 rhad ac am ddim*

James Memorials  
 Vicarage Crossing,  
 Llandre, Bow Street  
 Ffôn: (01970) 820 111

## Iwan Jones



**Gwasanaethau Pensaerniol**

*Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,  
 estyniadau ac addasiadau*

Gellimanwydd, Talybont,  
 Ceredigion SY24 5HJ  
**helen.iwan@btinternet.com**

**01970 832760**

# CHWARAEON

## Y Freuddwyd eto'n Fyw

Mae gobeithion Tal-y-bont o ennill pencampwriaeth Cynghrair Pêl-droed Cambrian Tyres yn parhau yn fyw wedi buddugoliaeth yn erbyn Padarn United ddydd Sadwrn diwethaf.

Ar ôl colli pwyntiau pwysig yn y gemau diwethaf a llithro o'r brig i'r drydydd safle, roedd yn hanfodol curo Padarn gan mai Padarn a ddisodlodd Tal-y-bont ar frig y tabl. Dyma felly oedd gêm fwyaf tyngedfennol y tymor i fechgyn Tal-y-bont.

Gêm gystadleuol iawn oedd hon o'r dechrau i'r diwedd ac er na chwaraewyd fawr ddim pêl-droed deniadol, rhaid edmygu dyfalbarhad y ddau dîm. Nid oedd Cae'r Odyn Galch ar ei orau gyda'r ddau dîm yn ei chael hi'n anodd rheoli'r bêl.

Dylai Tal-y-bont fod wedi manteisio ar ddau gyfle euraid yn y munudau cynnar ond wedi hynny fe fethodd y ddau dîm a chreu trafferthion i'r ddau gôl-geidwad am gyfnodau hir.

Daeth unig gôl y gêm ganol yr ail hanner a hynny wedi i Padarn fethu cyfle hawdd. Daeth Robbie Southgate o'i safle ar yr asgell a chreu cyfle i'w hunan i ergydio o ddeunaw llathen. Roedd ei annel yn gywir ac er i'r gôl-geidwad gael ei law i'r bêl, gwyrdd y bêl i gefn y rhwyd.



Robbie Southgate yn dathlu wedi'r gêm

Mawr fu'r dathlu ond, gyda dros ugain munud yn weddill, roedd angen i Dal-y-bont amddiffyn yn ddygn. Yn ffodus roedd Des Roberts fel craig yn y gôl a llwyddwyd i gadw Padarn rhag sgorio.

Mae gan Dal-y-bont dair gêm yn weddill a dau bwynt o fantais ar Padarn ar ben y tabl. Ni fydd y gemau hyn yn rhwydd o bell ffordd ond gyda dycnwch ac ychydig o lwc gall fod dathlu mawr yn y pentre ar ddiwedd y tymor.



Callum Pritchard yn penio at y gôl



Jamie Evans



Robbie Southgate yn sgorio'r unig gôl

## Tal-y-bont Teigars



Dyma dîm pêl-droed merched Tal-y-bont Teigars dan 12 sy'n chwarae yng Nghynghrair Ieuencid Aberystwyth (adran y bechgyn). Cafodd y tîm ddechrau da i'r tymor gan ennill sawl gêm a dim ond colli pedair. Mae rhan fwyaf o'r merched yn chwarae i dîm Canolbarth Cymru - safon uchel iawn. Gwylwch allan fechgyn!

Mae 'na le i ddiolch i'r rheolwr Karen Evans, Tal-y-bont am ei gwaith caled a hefyd i Nikki Myring-Thomas, Tal-y-bont ac Andy Roberts am eu cymorth yn ystod y tymor.

**Noson a Milgi**

# Rasys Ceffylau

**Nos Sadwrn – 25 Ebrill – 7.30pm**

## Llew Gwyn, Tal-y-bont

Maes Chwarae Cae'r Odyn Galch